Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cafcass Cymru Adroddiad Blynyddol 2022-2023

## i Blant a Phobl Ifanc



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Neges gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru | 3 |
| Ein Gwasanaeth | 4 |
| Ein Staff | 6 |
| Ein Rhanddeiliaid | 7 |
| Edrych i'r Dyfodol | 8 |
| Rhestr Termau | 9 |




# Neges gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru



**Diolch am gymryd yr amser i ddarllen ein hadroddiad, sy'n disgrifio beth wnaethon ni rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, a beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud y flwyddyn nesaf. Os oes unrhyw beth yr hoffech chi ei godi gyda ni am yr adroddiad, mae croeso i chi gysylltu â ni: mae rhai dolenni ar ddiwedd yr adroddiad os hoffech chi gysylltu â ni. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys rhestr termau er mwyn helpu i esbonio rhai o'r geiriau a all fod yn anghyfarwydd i chi.**

Nawr bod y pandemig wedi dod i ben a bod llawer o'r cyfyngiadau ar y ffordd rydyn ni'n gweithio wedi cael eu codi, rydyn ni'n dechrau gweithio mewn ffordd fwy arferol. Fodd bynnag, roedden ni am gadw rhai o'r ffyrdd newydd o weithio y gwnaethon ni eu cyflwyno – fel y gallu i gyfarfod â phobl o bell – os yw hynny'n well ganddyn nhw. Felly, mae ein 'ffordd arferol newydd' o weithio yn golygu gofyn i'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw sut maen nhw am gyfarfod â ni. Mae'n well gan lawer o bobl ifanc siarad â ni o bell, ond mae'n well gan rai gyfarfod â ni wyneb yn wyneb. Mae'r naill ffordd a'r llall yn iawn, ac rydyn ni'n awyddus i roi'r dewis i bobl.

Yn ystod y flwyddyn hon aeth Cafcass Cymru drwy 'Wiriad Sicrwydd', gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd hyn yn cynnwys siarad â phlant a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, edrych ar ein ffeiliau, a chyfarfod â barnwyr i gael gwybod am ansawdd ein gwaith. Roedd yn bleser mawr gen i nodi bod AGC wedi gallu dweud wrthon ni ein bod yn gwneud yn dda, ond bod rhai pethau y gallen ni eu gwella. Rydyn ni bellach yn gweithio ar ei hargymhellion i wella'r pethau y mae angen i ni eu gwella.

Mae Cafcass Cymru yn rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol ehangach yng Nghymru. Rydyn ni'n chwarae rôl allweddol i wella sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn pan fyddan nhw'n ymwneud â'r llysoedd teulu.

Y flwyddyn hon, roedden ni'n rhan o nifer o brosiectau newydd sydd â'r nod o helpu pawb yn y System Cyfiawnder Teuluol i wella profiadau plant a phobl ifanc.


**Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi bod yn rhan ohonyn nhw eleni:**

- Cynllun Peilot Braenaru yn y gogledd. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r barnwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu ffordd newydd o weithio gyda phlant a'u teuluoedd sy'n rhan o geisiadau cyfraith breifat. Rydyn ni am sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed dipyn yn gynt yn ystod yr achos. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal gwerthusiad i weld pa mor effeithiol yw'r cynllun peilot.
- Ers mis Mawrth 2023 mae myfyriwr prifysgol wedi bod yn gweithio gyda ni. Bydd yn treulio chwe mis yn clywed am brofiadau plant a phobl ifanc o fod yn rhan o lysoedd teulu, ac yn enwedig llysoedd Braenaru.
- Mewn rhannau eraill o Gymru, mae ffordd newydd o weithio mewn materion cyfraith breifat yn golygu nad oes angen i deuluoedd fynd i'r llys gymaint. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflymach i blant. Yn ein barn ni, mae'n llawer gwell i blant a'u teuluoedd os nad oes angen iddyn nhw ymwneud â'r llysoedd teulu am gyfnodau hir o amser.
- Yn olaf, y flwyddyn hon, mae Llywydd yr Is-adran Teuluoedd wedi ail-lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae hyn yn golygu ei fod am i bawb weithio allan beth sydd orau i blentyn mewn achos cyfraith gyhoeddus mor gyflym â phosibl fel nad yw plant yn gorfod aros am gyfnodau hir o amser cyn cael gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd iddyn nhw.

**Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen gweddill yr adroddiad hwn, a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth amdanon ni a beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG448195, ISBN digidol 978-1-83504-575-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Ein Gwasanaeth (Beth rydyn ni'n ei wneud dros blant, teuluoedd a'r llysoedd)




Ein gwaith ym maes cyfraith breifat yw siarad â phlant, eu teuluoedd, weithiau eu hathrawon neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n eu nabod, er mwyn deall pa fath o fywyd sydd ganddyn nhw a gweithio allan gyda'u rhieni neu eu gofalwyr pa drefniadau sydd orau iddyn nhw. Yna, rydyn ni'n dweud wrth y llys beth rydyn ni'n ei feddwl drwy ysgrifennu adroddiad ar beth rydyn ni wedi'i ganfod. Gan fod ein hymarferwyr i gyd yn weithwyr cymdeithasol profiadol, mae angen i ni ddweud wrth y llys beth, yn ein barn ni, fydd orau i'r plant rydyn ni'n gweithio gyda nhw, hyd yn oed os na fydd y rhieni neu'r plant yn cytuno â'n barn broffesiynol weithiau. I'r rhan fwyaf o'r teuluoedd rydyn ni'n dod i gysylltiad â nhw mewn materion cyfraith breifat, yn aml, dim ond am tua 15 wythnos y byddwn ni mewn cysylltiad â nhw...




Mae ein gwaith ym maes cyfraith gyhoeddus ychydig yn wahanol gan ein bod yn gweithio gyda phlant sydd, yn ein barn ni, yn wynebu risg o niwed tra byddan nhw yn y cartref. Yn debyg i gyfraith breifat, rydyn ni'n siarad â'r plant a phawb arall dan sylw, ond weithiau mae'n rhaid i ni ysgrifennu yn ein hadroddiadau nad yw hi'n ddiogel i blant fyw gyda'u rhieni yn eu cartref, ac weithiau mae angen i'r rhieni gael mwy o help i allu gofalu am eu plant yn ddiogel. Ein gwaith ni yw helpu pawb i weithio allan beth sydd orau. I'r plant rydyn ni'n dod i gysylltiad â nhw mewn achosion cyfraith gyhoeddus, rydyn ni fel arfer mewn cysylltiad â nhw am tua 34 wythnos ...






P'un ai achos cyfraith gyhoeddus neu achos cyfraith breifat oedd dan sylw, y flwyddyn hon gwnaethon ni wella'r ffordd rydyn ni'n dod i wybod am natur unigryw ac amrywiaeth pawb. Mae hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffordd orau posibl gyda phob un o'r teuluoedd rydyn ni'n cyfarfod â nhw. Hefyd, fel sefydliad sy'n ymrwymedig i wrando a dysgu, rydyn ni bob amser yn croesawu adborth, p'un a oes rhywun am godi pryder neu rannu sylwadau cadarnhaol. Er i ni gael 66 gwynion a 37 o sylwadau cadarnhaol ffurfiol y flwyddyn hon, ni chafodd yr un o'r rhain eu gwneud gan blant/pobl ifanc. Byddwn ni'n ceisio newid hyn yn ystod y flwyddyn i ddod drwy brosiect y myfyriwr prifysgol sy'n bwriadu siarad â phlant sydd wedi bod yn rhan o achosion cyfraith breifat, yn enwedig y llysoedd Braenaru. Fodd bynnag, os hoffech chi ddweud eich dweud, edrychwch ar y dolenni ar ddiwedd yr adroddiad hwn.




# Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol

Rydyn ni'n falch iawn o'n cydberthynas wych â Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ac unwaith eto y flwyddyn hon, mae wedi ein cefnogi yn y ffyrdd canlynol:



- Wedi rhoi hyfforddiant i'n staff cymorth busnes, gan roi gwybod iddyn nhw am yr effaith y gallan nhw ei chael ar y plant/pobl ifanc y maen nhw'n siarad â nhw.
- Wedi rhoi adborth ar rai o'n dogfennau, gan wneud yn siŵr eu bod mor hawdd eu deall â phosibl.





- Wedi bod yn rhan o baneli cyfweld wrth i ni recriwtio staff newydd.
- Wedi bod yn rhan o weithdai ynglŷn â sut y gallwn ni wella ein gwasanaeth.




- Wedi rhoi cyflwyniadau i'n Pwyllgor Cynghori.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am beth mae'r bwrdd yn ei wneud drwy ddilyn y **ddolen** hon.





# Ein Staff (pobl sy'n gweithio i Cafcass Cymru)



Mae tua 225 o bobl yn gweithio i Cafcass Cymru. Er bod ein staff yn cyflawni rolau gwahanol; mae pawb yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd sy'n golygu bod plant a phobl ifanc wrth wraidd y cyfan maen nhw'n ei wneud. Rydyn ni'n parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac rydyn ni bob amser yn anelu at weithio mewn ffordd deg, onest a thryloyw.


Mae tîm uwch-reolwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod Cafcass Cymru yn gweithio mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n dod i gysylltiad â nhw. Maen nhw'n cynnwys ein Prif Weithredwr (Nigel), ein Dirprwy Brif Weithredwr (Matthew) a saith o bobl sy'n cael eu galw'n Benaethiaid Gweithrediadau.





Mae gennym ni 140 o ymarferwyr gwaith cymdeithasol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc (chi) ac sy'n helpu i ddatblygu a gwella'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda chi hefyd.


Mae gennym ni hefyd 60 o bobl sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau gwahanol sy'n chwarae rhan bwysig iawn i wneud yn siŵr bod Cafcass Cymru yn gweithio'n effeithiol. Mae gennym ni bobl sy'n gyfrifol am ein systemau TG, sy'n helpu i recriwtio staff newydd, sy'n rheoli ein cyllideb, sy'n cydlynu ein gwaith â'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ac sy'n ymateb i lythyrau gan lawer o bobl wahanol. Mae gennym ni hefyd staff sy'n chwarae rôl allweddol i wneud yn siŵr ein bod yn ymateb i'r holl wybodaeth rydyn ni'n ei chael gan y llys a bod y wybodaeth gywir yn cael ei chasglu a'i chyflwyno i'r llys pan fydd ei hangen arno. Mae aelodau eraill o staff sy'n cefnogi'r gwaith o ddydd i ddydd, drwy roi trefn ar y post, negeseuon e-bost, galwadau ffôn, ychwanegu gwybodaeth at ein systemau electronig, anfon atgyfeiriadau ac ati.



# Ein Rhanddeiliaid (y bobl neu'r sefydliadau rydyn ni'n cael help ac adborth ganddyn nhw)


Rydyn ni bob amser yn hapus i gael adborth ar beth rydyn ni'n ei wneud a beth y gallwn ni ei wella, a fydd yn helpu pawb yn y System Cyfiawnder Teuluol i wneud eu gwaith yn well.






Y flwyddyn hon, dywedodd gwasanaethau plant rhai o'r awdurdodau lleol wrthon ni pa mor anodd oedd hi pan oedden ni'n argymell bod y llys yn gofyn iddyn nhw baratoi adroddiad Adran 37. Mae angen yr adroddiadau hyn pan fydd pobl yn poeni'n fawr am ddiogelwch plant yn y cartref, ond nad yw'r plant yn rhan o achos cyfraith gyhoeddus ar y pryd. Gwnaethon ni wrando ar beth ddywedodd ein cydweithwyr yn y gwasanaethau plant wrthon ni ac erbyn hyn, rydyn ni wedi gwneud rhai newidiadau i beth rydyn ni'n ei wneud, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod pan fyddwn ni a'r llysoedd yn poeni am blentyn neu blant mewn teulu. Rydyn ni'n gobeithio y gall y newid hwn i beth rydyn ni'n ei wneud helpu gwasanaethau plant i gefnogi teuluoedd nad ydyn nhw'n gyfarwydd â nhw o bosibl yn gynharach.

Rydyn ni hefyd am wneud yn siŵr bod sefydliadau eraill yn gwybod os oes problemau wedi codi i blant a phobl ifanc rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw, ond nad ydyn nhw wedi clywed amdanyn nhw o bosibl.






Fe gawson ni sesiwn holi ac ateb â Chomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, yn ddiweddar. Ymunodd dros 80 o aelodau o'n staff â'r sesiwn, a gwnaethon ni godi nifer o faterion a oedd yn bwysig, yn ein barn ni, i'r plant rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Lleoliadau diogel
- Cymorth iechyd meddwl i blant
- Amrywiaeth a chydraddoldeb
- Cefnogi teuluoedd sy'n gwahanu mewn cyfraith breifat
- Effaith pandemig COVID-19

# Edrych i'r Dyfodol



## Ein Gwasanaeth

Gan weithredu ar argymhellion ein Gwiriad Sicrwydd, y flwyddyn hon byddwn yn gweithio'n galed i wella rhai o'n prosesau a'r ffordd rydyn ni'n rhoi gwybodaeth amdanon ni i bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw ac am ganlyniad achosion llys.

Gallwch chi ein helpu i wella hefyd drwy ddweud eich barn wrthon ni. Dilynwch y ddolen ar ddiwedd y dudalen hon er mwyn rhoi eich adborth i ni: rydyn ni wir am glywed gennych chi.

## Ein Staff

Dangosodd adborth gan ein staff ym mhob rhan o Cafcass Cymru y gallen ni wneud yn well drwy roi hyfforddiant i'n staff nad ydyn nhw'n ymarferwyr (staff nad ydyn nhw'n weithwyr cymdeithasol).

Rydyn ni nawr yn gweithio gyda'n timau dysgu a datblygu i wneud y siŵr ein bod yn rhoi mwy o'r hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw i wneud eu gwaith, nid dim ond yr ymarferwyr, ond y timau eraill hefyd.

## Ein Rhanddeiliaid

I'r rhan fwyaf ohonon ni sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Teuluol ehangach, cael pethau'n iawn i blant yw ein prif nod. P'un a yw hynny'n golygu'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn teimlo pan fyddan nhw'n ymwneud â ni, neu sicrhau'r canlyniadau gorau. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i wella beth rydyn ni'n ei wneud drwy'r amser.

Yn olaf, y flwyddyn hon mae'r llys teulu yng Nghaerdydd wedi cael ei gynnwys mewn cynllun peilot sy'n caniatáu i ohebwyr arbenigol ysgrifennu erthyglau i'r cyfryngau am beth sy'n digwydd yn y llys teulu. Syniad newydd yw hwn. Cyn hynny, doedd neb yn cael caniatâd i gyhoeddi dim er mwyn cadw manylion y plant a'r bobl ifanc a oedd yn rhan o achosion llys teulu yn gyfrinachol. O dan y 'Cynllun Peilot Tryloywder' newydd hwn, dim ond gohebwyr cymeradwy sy'n cael caniatâd i ysgrifennu am beth sydd wedi digwydd, ond allan nhw ddim rhoi enwau'r teuluoedd dan sylw. Byddwn ni'n edrych ar y ffordd mae'r cynllun peilot hwn yn gweithio i'r plant a'r bobl ifanc sy'n destun unrhyw erthyglau.



**Cofiwch, rydyn ni wir am gael eich adborth os ydych chi wedi dod i gysylltiad â ni ar unrhyw adeg:**

**Dolen i Blant** **Dolen i Bobl Ifanc**

# Rhestr Termau

### Adroddiad Adran 37
Adroddiad sy'n cael ei baratoi gan yr awdurdod lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac sy'n cael ei gyfarwyddo gan y Llys pan fydd yn ymddangos i'r Llys y gall fod yn briodol i orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio gael ei wneud mewn perthynas â phlentyn.

### Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)
Proses sy'n digwydd pan fydd yr awdurdod lleol yn poeni am lesiant plentyn ac oni bai bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried gwneud cais i'r llys am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio.

### Amrywiaeth
Yr arfer neu'r rhinwedd o gynnwys pobl o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig gwahanol ac o wahanol ryweddau, cyfeiriadeddau rhywiol ac ati.

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Sefydliad sy'n gyfrifol am arolygu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau yn rhoi gwasanaeth o'r safon uchaf i blant a theuluoedd yng Nghymru.

### Awdurdod lleol (sydd hefyd yn cael ei alw'n gwasanaethau plant neu wasanaethau cymdeithasol)
Y sefydliad yma sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn ei ardal leol yn cael ei gadw'n ddiogel gan y bobl sy'n gofalu amdano.

### Barn Broffesiynol
Defnyddio gwybodaeth a phrofiad proffesiynol, ynghyd â safonau, moeseg a chyfreithiau, i wneud penderfyniadau am nodau, materion, cyngor ac awgrymiadau. Mae hyn yn cynnwys gwneud dewisiadau meddylgar sydd o fudd i gleientiaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth, dangos disgresiwn a gwneud penderfyniadau gwybodus.

### Cyfraith breifat
Mae'r achosion hyn yn cael eu cyflwyno i'r llys teulu gan unigolion preifat, fel arfer mewn cysylltiad ag ysgariad neu rieni'n gwahanu. Gall y llys teulu wneud gorchymyn trefniadau plentyn, gorchymyn camau gwaharddedig neu orchymyn materion penodol neu ddim gorchymyn o gwbl.

### Cyfraith gyhoeddus
Mae achosion cyfraith gyhoeddus yn cael eu cyflwyno i'r llys teulu gan awdurdodau lleol lle maen nhw'n poeni nad yw plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal diogel. Gall y llys teulu wneud gorchymyn gofal, gorchymyn goruchwylio neu ddim gorchymyn o gwbl.

### Cymorth Busnes
Gweithwyr sy'n rhoi trefn ar yr holl lythyrau, negeseuon e-bost, galwadau ffôn ac sy'n gwneud yn siŵr bod unrhyw adroddiadau'n mynd i'r lle iawn. Maen nhw hefyd yn gwneud yn siwr bod manylion pobl yn gywir ar ein system gyfrifiadurol.

### Cynllun Peilot Tryloywder
O 30 Ionawr 2023, am gyfnod o 12 mis, bydd y cyfryngau neu'r blogwyr cyfreithiol sy'n mynd i wrandawiadau'r llys teulu mewn tri llys (Caerdydd, Caerliwelydd neu Leeds), yn gallu ysgrifennu am yr achos, yn amodol ar orchymyn tryloywder caeth iawn a fydd yn gwneud yn siŵr na fydd neb yn gallu adnabod plant.

### Dirprwy Brif Weithredwr
Y person nesaf (ar ôl y Prif Weithredwr) sy'n gyfrifol am reoli sefydliad.

### Gwiriad Sicrwydd
Proses lle mae Arolygiaeth Gofal Cymru, yn adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd prif swyddogaethau Cafcass Cymru, sef rhoi cyngor arbenigol i'r llysoedd a diogelu a chefnogi plant a theuluoedd.

### Intern PhD
Myfyriwr prifysgol sy'n gweithio mewn rôl anacademaidd, yn derbyn heriau sy'n codi y tu allan i'w arbenigedd ymchwil, ac yn datblygu sgiliau sy'n berthnasol i'w ymchwil academaidd ac i fyd gwaith ar ôl hynny.

### Llys teulu
Dyma lle mae penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n wahanol i lysoedd troseddol lle bydd pobl yn mynd pan fyddan nhw wedi gwneud rhywbeth o'i le o bosibl. Yn y llys teulu, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan farnwyr neu ynadon pan fydd angen help ar bobl i gytuno ar beth sydd orau i blentyn neu berson ifanc.

### Llysoedd Braenaru
Dull cwbl wahanol o ymdrin ag achosion cyfraith breifat. Ei nod, yn anad dim, yw ceisio hyrwyddo dull 'diogelwch yn gyntaf', sy'n golygu y bydd yr achosion hynny lle mae angen cymorth y llys yn ei gael i'w harwain drwy argyfyngau a lleihau gwrthdaro.

### Llywydd y Llys Teulu
Pennaeth cyfiawnder teuluol, sy'n cael ei benodi gan y Brenin, ac o dan y gyfraith mae'n rhaid bod y person hwn yn gymwys i gael ei benodi'n Arglwydd neu'n Arglwyddes Ustus Apêl, neu'n farnwr i'r Llys Apêl. Y Llywydd presennol yw Syr Andrew McFarlane.

### Penaethiaid Gweithrediadau
Y bobl sy'n arwain gwahanol feysydd gwaith neu dimau yn Cafcass Cymru.

### Prif Weithredwr
Y person sy'n gyfrifol am reoli sefydliad.

### Pwyllgor Cynghori
Grŵp o bobl sy'n cynnwys aelodau o randdeiliaid gwahanol. Rydyn ni'n rhoi gwybod iddyn nhw beth rydyn ni'n yn ei wneud a pha mor dda rydyn ni'n ei wneud, ac maen nhw'n dweud wrthon ni os oes angen i ni wneud rhywbeth yn well neu'n wahanol.

### Rhanddeiliad
Unigolyn neu grŵp o bobl sydd â budd mewn unrhyw benderfyniad neu weithgaredd gan sefydliad. Heb eu cymorth nhw ni all sefydliad fodoli.

### Staff Cafcass Cymru
Mae'r staff gwaith cymdeithasol cymwysedig weithiau'n cael eu galw'n ymarferwyr neu'n swyddogion, ac maen nhw'n gweithio fel cynghorwyr i'r llys teulu, neu warcheidwad plant. Gall aelodau eraill o'r staff nad ydyn nhw'n ymarferwyr fod yn aelodau o'n timau cymorth busnes a chymorth canolog.

### System Cyfiawnder Teuluol
Mae'n bodoli er mwyn helpu teuluoedd i ddatrys anghydfodau sy'n codi o ran materion teuluol yn gyflym a gyda chyn lleied o darfu ar y rhai dan sylw.

### Ymarferwyr
Yn dibynnu ar beth mae'r llys teulu wedi gorchymyn i Cafcass Cymru ei wneud, gall y gweithiwr (sy'n cael ei alw'n ymarferydd neu'n swyddog weithiau) gael ei alw'n gynghorydd llys teulu neu'n warcheidwad plant.